



Beth fyddaf yn ei ddysgu?

Bydd y cwrs hwn yn eich helpu i ddysgu:

- Am y mathau o swyddi a chwmnïau y medrech weithio ynddynt a sut brofiad fyddai gweithio yn y diwydiant adeiladu;
- Sut i wneud Bricwaith, Plastro, Gwaith Coed, Paentio ac Addurno sylfaenol a sut i gadw ardal waith yn lân, taclus a diogel;
- Am faterion amgylcheddol, iechyd a diogelwch a'r gyfraith yn y gweithle.

Sut fyddaf yn dysgu? Mae'r cwrs yn cael ei ddysgu ar safle Coleg

Menai yn Llangefni am 3 awr yr wythnos ym Mlwyddyn 10 ac 11 ac mae cludiant ar gael o ac yn ôl i'ch ysgol. Mae'r cwrs yn gymysgedd o dasgau ystafell ddisbarth ac ymarferol. Byddwch yn cael cyfle i baratoi ac ymarfer eich sgiliau cyn i chi gael eich asesu fel eich bod yn gwybod a deall yr hyn y byddwch yn gorfod ei wneud.

Beth fyddaf ei angen? Bydd gofyn i fyfyrwyr ddarparu dillad amddiffynnol addas (esgidiau diogelwch ac oferôls) a fydd ar gael gan y Coleg.

Sut fyddaf yn cael fy asesu? Byddwch yn cynhyrchu gwaith cwrs a asesir yn bennaf gan y tiwtor cwrs. Ar ddiwedd pob uned cwrs, byddwch yn cwblhau arholiad tasg ymarferol a fydd yn profi eich gwybodaeth.

Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs hwn? Ar ôl Blwyddyn 11, gallwch fynd ymlaen i Sgiliau Adeiladu Lefel 2 City & Guilds neu i gwrs adeiladu rhyddhad diwrnod lefel 2 ICA/CGC. Ar ôl hyn i gyd, byddwch wedi eich paratoi yn dda ar gyfer gwaith a/neu ddechrau hyfforddiant pellach yn y diwydiant adeiladu.

Ond, os nad ydych yn ffansio parhau gydag adeiladu, gallwch ddewis cymwysterau addas eraill yn dibynnu ar yr hyn yr ydych eisiau edrych arno nesaf. Bydd eich ymgynghorydd gyrfau yn medru eich helpu gydag eich dewisiadau pan adewch yr ysgol.

Syniadau am Swyddi!

- Briciwr
- Peintiwr ac Addurnwr
- Plastrwr
- Gwaith Coed

Eisiau gwybod mwy?

I ddarganfod mwy am y cwrs hwn, dylech ymweld â'r dudalen we ganlynol:

<http://www.cityandguilds.com/qualifications-and-apprenticeships/construction/construction/6219-construction-skills#tab=information&acc=level1>

Neu cysylltwch â: www.gyrfacymru.com

NID YW'R CWRS YN ADDAS I DDYSGWYR GYDAG ECSEMA